# Cynulliad Cenedlaethol Cymru

# Strategaeth e-ddemocratiaeth
## Ymwneud yn ddigidol â phobl Cymru

Cynnwys


1. Rhagair t2

2. Yr amgylchedd gweithredu a'r *status quo*
   - 2.1 Yr hyn sy'n ein gyrru t3
   - 2.2 Ein perfformiad t3
   - 2.3 Ein heriau t4

3. Gweledigaeth, Nodau ac Amcanion
   - 3.1 Gweledigaeth t7
   - 3.2 Nodau t7
   - 3.3 Amcanion t8

4. Llywodraethu t11

5. Risgiau t12

6. Staffio a chostau t13

7. Amserlen ar gyfer cyflawni t14

8. Allbynnau t15

9. Gwerthuso a monitro t16

10. Cydnabyddiaeth t17

## 1. Rhagair

**Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno ehangu ei ddefnydd o amrywiaeth o sianelau digidol er mwyn cynyddu cwmpas a dyfnder ei ymwneud â phobl Cymru a dealltwriaeth pobl Cymru a rhanddeiliaid eraill.**

**Mae'r strategaeth hon yn gosod allan yr hyn mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn dymuno'i gyflawni drwy ymwneud digidol neu fentrau e-ddemocratiaeth, a sut y bydd yn cyflawni hynny.**

**Bydd y strategaeth yn amlinellu'r canlynol:**

- **crynodeb o'r sefyllfa bresennol;**
- **datganiad clir o'n gweledigaeth, ein nodau a'n hamcanion;**
- **trosolwg ar lefel uchel o swyddogaethau a chyfrifoldebau ar gyfer staff;**
- **llywodraethu;**
- **crynodeb o'r camau nesaf, gan gynnwys amserlen; a**
- **dadansoddiad o fecanweithiau arfarnu.**

**Rhaid sylwi bod y ddogfen hon yn gosod y cyfeiriad strategol ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Nid dogfen weithredol mohoni. Fodd bynnag, nod y strategaeth yw sicrhau arbedion cost drwy ddefnyddio adnoddau'r Cynulliad yn effeithlon, a galluogi defnyddio technolegau sydd ar gael am ddim ac yn hawdd.**

**Ar ôl cymeradwyo'r strategaeth gan Gomisiwn y Cynulliad, caiff cynllun darparu gweithredol manwl ei baratoi.**

Iwan Williams
Rheolwr y Cyfryngau, Brandio ac e-ddemocratiaeth
Awst 2010

## 2. Yr amgylchedd gweithredu a'r *status quo*

**Ystyr e-ddemocratiaeth yw defnyddio sianelau cyfathrebu digidol a thechnegau cyfathrebu traddodiadol yn effeithiol i sicrhau bod y Cynulliad Cenedlaethol yn cyfathrebu'n effeithiol ac yn caniatáu i bobl Cymru allu cysylltu'n gyflym ac yn hawdd â'r Cynulliad.**

**2.1 Yr hyn sy'n ein gyrru**

**Un o amcanion strategol allweddol y Cynulliad Cenedlaethol yw cynnwys y cyhoedd yn y broses ddemocrataidd; sicrhau bod dealltwriaeth gynyddol o'i swyddogaeth yng Nghymru, a hysbysu pobl sut y gallant fod yn rhan o'i swyddogaethau o ran deddfwriaeth a chraffu.**

**Wrth inni nesáu at y Pedwerydd Cynulliad ac ymgymryd â'r rôl o hysbysu pobl Cymru am eu cyfleoedd i bleidleisio yn 2011, mae angen inni sicrhau ein bod yn gwneud y gorau o bob cyfle i siarad â phobl Cymru. Mae gennym fatrics cadarn o sianelau cyfathrebu, ond rhaid inni sicrhau yr ychwanegir at y rhain gan ddulliau newydd sy'n datblygu.**

**Felly, mae'r strategaeth yn cymryd i ystyriaeth y gostyngiad cyffredinol o 5 y cant yn y gyllideb ar gyfer 2011-12, a'r gostyngiad cronnus arfaethedig  o 20 i 25 y cant erbyn diwedd 2014-15. Rhagwelir y gellir cyflawni'r strategaeth hon o fewn y cyfyngiadau hyn.**

**Mae technoleg wedi newid cyfathrebu. Mae wedi newid y ffordd y bydd pobl yn cyfathrebu â'i gilydd, ac y mae'n newid y ffordd y bydd pobl yn cyfathrebu â sefydliadau, mawr a bach. Erbyn hyn, mae pobl yn disgwyl gallu cysylltu â chyrff cyhoeddus a phreifat ar unwaith, ac yn bwysicach, maent yn disgwyl i'r cyrff hynny wrando ac ymateb yn brydlon.**

**Os na fydd  y Cynulliad mewn sefyllfa i allu siarad, bydd yna sgyrsiau eraill a fydd yn trafod y ffaith fod deddfwrfa Cymru yn methu rhyngweithio â phobl ar eu telerau hwy, a bydd hynny ar unwaith yn golygu ei bod yn methu yn ei nod o ymwneud yn effeithiol.**

**Yn ogystal, rhaid i'r Cynulliad gadarnhau ei safle o fod yn ffynhonnell wybodaeth awdurdodol a dibynadwy ar faterion sydd, er yn ymddangos yn haniaethol, hwyrach, yn effeithio'n uniongyrchol ar fywydau pobl – megis y refferendwm.**

**Felly, mae'r strategaeth hon ar e-ddemocratiaeth yn gosod allan fwriad clir y bydd y Cynulliad yn derbyn yn frwd dechnolegau newydd i sicrhau ein bod mewn sefyllfa i ryngweithio â phobl Cymru - ar eu telerau hwy, yn eu dewis hwy o amgylchedd, ac yn yr iaith a ddewisant, ond mewn ffordd sy'n caniatáu inni reoli ac arwain sgyrsiau'n effeithiol.**

**Y bwriad yw gwneud cyfathrebu â'r Cynulliad yn ddemocrataidd, ac ar yr un pryd wneud y broses ddemocrataidd yng Nghymru yn fwy hwylus ac yn haws ei deall.**

## 2.2 Ein perfformiad

**Mewn llawer ffordd, mae'r Cynulliad ar y blaen i'w gyfoedion yn y ffordd y mae'n defnyddio technoleg. Caiff Aelodau Cynulliad eu gwasanaethu gan systemau gwybodaeth deallus yn y Senedd ac yn eu swyddfeydd rhanbarthol ac etholaethol, gan roi iddynt y gallu i weithio heb ddefnyddio papur. Ni yw un o'r ychydig seneddau yn y byd lle gall Aelodau gyflwyno gwybodaeth yn electronig, yn ogystal â phleidleisio a chyfathrebu'n ddigidol o fewn y Siambr.**

**Mae gwasanaeth gweddarlledu byw y Cynulliad, Senedd.tv, yn darparu darllediad cynhwysfawr o holl fusnes y Cynulliad, ac yn Siambr Hywel – siambr ddadlau'r Senedd gynt – y mae'r unig siambr drafod benodedig yn y byd ar gyfer pobl ifanc. Yn ogystal, caiff trawsgrifiadau o Gyfarfodydd Llawn eu cyhoeddi ar-lein cyn pen 24 awr ar ôl diwedd y cyfarfod, a chaiff crynodeb o'r busnes ym mhob cyfarfod hefyd ei gyhoeddi ar-lein cyn pen hanner awr ar ôl diwedd pob cyfarfod.**

**Eleni hefyd ymrwymodd Comisiwn y Cynulliad i sicrhau bod y cofnod o drafodion ar gael yn fwy cyffredinol i gynulleidfa ehangach.**

**Mae'r Cynulliad wedi ehangu'n sylweddol ei ddull strategol o ddefnyddio technegau aml-gyfrwng er mwyn codi proffil ein swyddogaethau craffu a deddfwriaethol; mae'r tîm Cyfathrebu Allanol wedi bod yn gweithio'n agos gyda phwyllgorau i ddatblygu pecynnau gwybodaeth aml-gyfrwng sy'n cwmpasu ymgynghori, ymchwilio, crynhoi tystiolaeth a lansio adroddiadau.**

**Mae cwmpas gwaith felly wedi cynyddu drwy ddefnyddio bws y Cynulliad yn y Gogledd, ac mae lansio'r Pierhead hefyd yn cynnig ffordd ysgafnach o gyflwyno gwybodaeth am weithgareddau'r Cynulliad.**

**Rydym hefyd wedi cyflwyno presenoldeb y Cynulliad yn llwyddiannus ar nifer o wefannau rhwydweithio cymdeithasol. Defnyddir Twitter fel lleoliad newyddion dwyieithog sy'n rhoi ein holl ddatganiadau i'r wasg; mae Facebook yn rhoi gwybodaeth am holl ddigwyddiadau'r Cynulliad; mae tudalennau Flickr y Cynulliad yn rhoi i'r cyhoedd nifer o luniau di-hawlfraint o'r Cynulliad a'i ystâd. Mae gan y Cynulliad sianel YouTube benodedig sy'n cynnwys pob fideo sy'n cael ei gynhyrchu naill ai fel rhan o becynnau newyddion aml-gyfrwng y Cynulliad neu ei fideos hyrwyddo ac "esbonio".**

**Fodd bynnag, mae mentrau e-ddemocratiaeth y Cynulliad wedi bod yn dactegol pan ddylent fod yn strategol, ac yn ysbeidiol pan ddylent fod yn gyson.**

**Yn ogystal, nid yw ein proffil digidol – ac yn wir ein hygyrchedd – bob amser yn gymesur â'n swyddogaeth fel deddfwrfa Cymru.**

## 2.3 Yr heriau

**Er bod y Cynulliad yn y tair blynedd diwethaf wedi gwella'i ymdrechion cyfathrebu'n sylweddol, mae'r strategaeth yn ceisio sicrhau ein bod yn cyd-fynd â'r farchnad gyfathrebu a phobl Cymru, â dyheadau Aelodau'r Cynulliad ac â disgwyliadau staff.**

### Y farchnad

**Yn ystod y pum mlynedd diwethaf mae ein hamgylchedd gweithredu wedi newid yn sylweddol. Mae'r tirlun o ran cyfathrebu wedi mynd yn gynyddol ddarniog a dan reolaeth cyfyngiadau digidol, sydd wedi newid cyfansoddiad cynulleidfaoedd, eu patrymau defnyddio a chwmpas rhyngweithio'r Cynulliad â hwy.**

### Aelodau'r Cynulliad

**Mae nifer o Aelodau'r Cynulliad yn wybodus o ran technoleg ac yn defnyddio amrywiaeth eang o dechnegau a sianelau cyfathrebu i gysylltu ag etholwyr a rhanddeiliaid a chyd-weithwyr. Felly, dylai'r Cynulliad, fel corff arloesol sy'n ymwneud yn ddigidol, gynnig arweiniad ar dueddiadau sy'n datblygu i Aelodau sydd eisoes yn fedrus yn dechnolegol. Dylai hefyd annog a mentora Aelodau sy'n llai hyderus i sicrhau bod etholwyr ledled Cymru yn cael yr un cyfle i ryngweithio'n ddigidol â'u Haelod Cynulliad rhanbarthol neu leol.**

### Staff y Cynulliad Cenedlaethol

**Mae gan nifer o staff y Cynulliad Cenedlaethol broffiliau cymdeithasol ar waith neu maent yn cymryd rhan yn y blogosffer gwleidyddol a chymdeithasol yn bersonol. Mae gan nifer o'n staff ddiddordeb nid yn unig mewn cyfathrebu gwleidyddiaeth, ond yng ngwleidyddiaeth cyfathrebu; byddai defnyddio sgiliau staff yn well yn golygu ein bod yn gwella fel sefydliad. Yn ogystal, mae defnyddio sianelau digidol, yng ngolwg y staff, yn hollol ganolog i'r ymdrech hon.**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn cynhyrchu ac yn rheoli'r polisïau, yr arweiniad a'r hyfforddiant a grëir i gefnogi staff sy'n ymgymryd â gwaith e-ddemocratiaeth.**

**Mae'n werth sylwi bod nifer o ffyrdd y gall staff y Cynulliad Cenedlaethol ymwneud yn ddigidol ac y gallant gynrychioli'r Cynulliad Cenedlaethol mewn nifer o sefyllfaoedd. Weithiau gall y 'cynrychioli' hwn fod y tu hwnt i ddylanwad uniongyrchol y strategaeth gorfforaethol hon.**

**Awgrymir y dylai'r Cynulliad Cenedlaethol, felly, ddatblygu canllawiau polisi ar gyfer ei staff, Aelodau'r Cynulliad a Chomisiynwyr sy'n cydnabod tair lefel o gyfranogi mewn ymwneud digidol. Mae'r polisi hwn yn cyd-fynd â pholisïau ymwneud ehangach sydd wedi eu datblygu gan Swyddfa'r Cabinet:**

- **Personol: proffil digidol preifat sy'n eiddo llwyr i'r unigolyn ac wedi ei bennu'n unigryw ganddo, lle gall ef neu hi siarad yn achlysurol am gael ei gyflogi gan y Cynulliad Cenedlaethol. Ond ni ddylai ddefnyddio'r proffil hwn i drafod na chynrychioli'r sefydliad a'i weithgareddau proffesiynol;**

- **Noddi: proffil proffesiynol sy'n eiddo llwyr i'r unigolyn ac wedi ei bennu'n unigryw ganddo ond yn cael ei ddefnyddio'n unig mewn cysylltiad â'i weithgaredd proffesiynol fel un a gyflogir gan y Cynulliad ac sydd, felly, wedi ei gofrestru gyda'r adran Cyfathrebu Allanol a'i lunio gan strategaeth gorfforaethol y Cynulliad – er enghraifft, gweithiwr Allgymorth yn un o ranbarthau'r Cynulliad;**

- **Corfforaethol: proffil proffesiynol wedi ei lunio gan yr unigolyn ond yn cael ei gydlynu gan y Cynulliad Cenedlaethol, ei ddefnyddio'n unig fel sianel gyfathrebu gorfforaethol ac wedi ei fframio gan strategaeth y sefydliad – mae proffiliau ar gyfer pwyllgorau penodol y Cynulliad Cenedlaethol, swyddogaethau newyddion, ac yn y blaen, yn enghreifftiau.**

# 3. Gweledigaeth, nodau ac amcanion

## 3.1 Gweledigaeth

Dyma yw'r weledigaeth strategol ar gyfer strategaeth e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol:

> Ymrwymiad y Cynulliad Cenedlaethol i e-ddemocratiaeth yw ymrwymiad i sicrhau y gall pobl Cymru ddeall yn hawdd ein swyddogaethau deddfwriaethol a chraffu, a chymryd rhan ynddynt.
>
> Bydd holl waith e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn canolbwyntio ar sicrhau ein hamcanion busnes, ac anogir yr holl staff i gymryd rhan er mwyn dangos eu doniau a'u hymrwymiad i'n hamcanion.

## 3.2 Nodau

Mae'r nodau canlynol wedi eu cynnwys yn y weledigaeth:

1. Ymrwymo i sgwrsio
   Mae'r Cynulliad Cenedlaethol wedi ymrwymo i ddefnyddio pob sianel gyfathrebu sydd ar gael – yn rhai traddodiadol a rhai arloesol – i sicrhau bod pobl Cymru'n deall gwaith y Cynulliad ac yn dymuno cymryd rhan ynddo.

2. Bydd cyfathrebu'n berthnasol, yn ddefnyddiol ac yn effeithiol
   Caiff pob menter a strategaeth gyfathrebu ei gwerthuso i sicrhau ei bod nid yn unig yn gost-effeithiol ond yn defnyddio'r sianel gyfathrebu fwyaf addas. Gall y sianelau hyn fod yn draddodiadol, yn arloesol neu'n gyfuniad o'r ddau.

3. Ymrwymiad i gydlynu dulliau cyfathrebu
   Caiff pob menter gyfathrebu ei hasesu i sicrhau ei bod wedi ei phwysoli'n gywir o ran cyfathrebu digidol a chyfathrebu traddodiadol, megis allgymorth a digwyddiadau.

4. Y cyfrwng yw technoleg, nid y neges
   Ni fydd defnyddio cyfryngau digidol yn dod yn ddull llaw-fer diog am fod yn arloesol, ac ni thynnir sylw'r Cynulliad gan offer cyfathrebu arloesol. Bydd y Cynulliad yn ymroi i faterion yn hytrach nag i'r cyfrwng a ddefnyddir i gyfleu'r materion hynny

5. Annog arloeswyr cyfathrebu
   Bydd y Cynulliad yn cydnabod bod gan rai pobl a thimau, ar draws y sefydliad, ddiddordeb ysol mewn ymwneud digidol a dulliau arloesol o gyfathrebu. Felly, bydd y Cynulliad yn annog yr unigolion hynny i fod yn hyrwyddwyr e-ddemocratiaeth dros eu maes gwasanaeth (ac i weithio gyda'u rheolwyr i hwyluso hyn) er mwyn sicrhau bod yr egwyddor yn gwreiddio drwy'r holl sefydliad.

6. **Anelu at ymwneud creadigol**
   **Byddwn yn ymdrechu i wneud ein cyfathrebu'n greadigol er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad y Cynulliad i ymateb yn gadarn i newid cyfansoddiadol.**

7. **Derbyn bod rhai risgiau'n angenrheidiol**
   **Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig ag e-ddemocratiaeth - gan gynnwys risg i enw da, diogelwch personol a diogelu data - drwy sefydlu polisïau ac arweiniad cadarn ar ymwneud digidol.**

8. **Gwybod beth yw ein cyfyngiadau**
   **Mae yna rai gweithgareddau cyfathrebu nad ydynt yn addas ar gyfer cyfathrebu digidol yn unig – er enghraifft, yn y dyfodol agos mae'n annhebygol y byddwn yn ymgymryd ag ymchwiliad deddfwriaethol neu graffu a fyddai'n digwydd ar-lein *yn unig*. Byddwn bob amser yn glir ynglŷn â'r hyn sydd y tu allan i gylch gwaith cyfathrebu digidol, a pham.**

9. **Mesur brwdfrydedd rhanddeiliaid**
   **Cyn i'r Cynulliad ddechrau ag ymrwymiad i gyfathrebu'n ddigidol â grwpiau o randdeiliaid wedi eu diffinio (er enghraifft, y cyfryngau), byddwn yn asesu eu brwdfrydedd dros gyfathrebu felly, a byddwn yn addasu ein dull yn ôl eu hanghenion.**

10. **Gwerthuso**
    **Bydd y Cynulliad Cenedlaethol yn rheolaidd yn monitro ac yn gwerthuso effaith ac ansawdd ei ymwneud, a byddwn yn addasu ein cyfathrebu o ganlyniad i farn a geir o'r gwerthuso hwnnw. Rydym hefyd yn ymrwymo i rannu'r farn honno gyda rhanddeiliaid eraill pan fydd yn briodol.**

## 3.3 Amcanion

**Mae'r amcanion dilynol wedi eu llunio i grisialu gweledigaeth y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer e-ddemocratiaeth a'r amcanion sy'n ei chynnal.**

**Mae'r amcanion hyn i gyd yn cydymffurfio ag egwyddorion CAMPUS, a chânt eu hadolygu'n rheolaidd, yn enwedig yn ystod cyfnod cychwynnol eu gweithredu.**

**Mae'r amcanion dilynol am y cyfnod cychwynnol o 12 mis.**

1. **Sefydlu tîm e-ddemocratiaeth drwy'r Cynulliad i gyd**
   **Caiff grŵp e-ddemocratiaeth ei sefydlu gyda chynrychiolwyr o bob maes gwasanaeth, gan gynnwys pobl sydd naill ai wedi dweud eu hunain fod ganddynt ddiddordeb gwirioneddol mewn e-ddemocratiaeth, neu sydd eisoes wedi dangos bod ganddynt gymhwyster ar gyfer yr egwyddorion sy'n ei llywio.**

2. **Datblygu cynllun 12 mis**
   **Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn datblygu cynllun e-ddemocratiaeth 12 mis yn seiliedig ar y strategaeth hon ac yn ei weithredu, a bydd gweithgareddau'n ceisio cyflawni gweledigaeth a nodau'r strategaeth.**

3. **Creu canolbwynt ar gyfer yr holl weithgaredd e-ddemocratiaeth**
   **Bydd gwefan y Cynulliad Cenedlaethol yn darparu un man mynediad ar gyfer yr holl weithgaredd e-ddemocratiaeth.**

4. **Cael y staff i ymgyfarwyddo â'r gweithgaredd presennol**
   **Mae nifer o safleoedd rhwydweithio cymdeithasol eisoes wedi eu sefydlu ar gyfer y Cynulliad i baratoi ar gyfer yr adeg pan fydd y strategaeth e-ddemocratiaeth ar waith.**

   **Cyfrifoldeb aelodau unigol y tîm e-ddemocratiaeth fydd sicrhau bod eu meysydd gwasanaeth perthnasol yn ymwybodol o'r rhain a'r ffordd maent yn cael eu defnyddio.**

   **Eu cyfrifoldeb hwy hefyd fydd nodi sut y gellid ychwanegu at weithgaredd eu meysydd gwasanaeth o ddydd i ddydd, a'u gwneud yn fwy hygyrch drwy ymwneud digidol.**

5. **Polisïau ac arweiniad**
   **Mae polisïau ac arweiniad drafft wedi eu datblygu ar gyfer defnyddio'r safleoedd a ddefnyddir ar hyn o bryd. Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn adolygu'r rhain yn rheolaidd.**

6. **Hyrwyddwr i'r Bwrdd Rheoli**
   **Dylai'r Cynulliad Cenedlaethol gael hyrwyddwr e-ddemocratiaeth penodedig ar ei Fwrdd Rheoli (a'r Bwrdd Newid) a all ddangos dealltwriaeth gref o egwyddorion e-ddemocratiaeth a'u heffaith bosibl ar waith y Cynulliad Cenedlaethol.**

7. **Adolygu polisïau ar fynediad i'r we**
   **Mae prosiect UNO wedi galluogi gwneud arolwg o fynediad i'r we drwy'r holl sefydliad. Dylai pob hyrwyddwr e-ddemocratiaeth allu cael mynediad i'r safleoedd rhwydweithio cymdeithasol perthnasol a ddefnyddir gan y Cynulliad.**

   **Dylai pob maes gwasanaeth hefyd gael o leiaf un cyfrifiadur 'mynediad agored' ar ei lawr, yn ogystal â'r rheiny sydd yn y llyfrgell.**

8. **Monitro gweithgaredd e-ddemocratiaeth**
   **Caiff holl weithgaredd e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol ei fonitro bob dydd, a chyflwynir adroddiad yn rheolaidd, ond dim llai nag unwaith y chwarter. Caiff hwnnw ei ddarparu i'r Comisiynwyr, i reolwyr ac i staff.**

9. **Ymrwymiad o bob maes gwasanaeth**
   **Dylai pob pennaeth maes gwasanaeth adolygu ei gynlluniau gwasanaeth er mwyn asesu sut y gellir ymgorffori egwyddorion e-ddemocratiaeth yn ei fusnes o ddydd i ddydd. Dylid cyflwyno'r ymrwymiad hwn i'r tîm e-ddemocratiaeth gan gynrychiolwyr y meysydd gwasanaeth unigol.**

10. **Rhannu ein gweledigaeth a'n nodau**
   **Er mwyn atgyfnerthu ymrwymiad y Cynulliad i ymwneud yn effeithiol â'r cyhoedd a rhanddeiliaid, dylid rhannu'r fersiwn hwn o'r weledigaeth sydd wedi ei gytuno gyda rhanddeiliaid penodol. Caiff eu hymateb a'u barn eu crynhoi a'u defnyddio i ychwanegu at amcanion y strategaeth pan gaiff y rheini eu hailadrodd.**

## 4. Llywodraethu'r strategaeth e-ddemocratiaeth

**Bydd mentrau e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn canolbwyntio'n bennaf ar y cychwyn ar y cyhoedd a grwpiau o randdeiliaid a fydd wedi eu nodi'n glir, fel y cyfryngau a'r rheini sy'n ymwneud â materion cyhoeddus.**

**Caiff y gweithgaredd ei gydlynu gan y tîm e-ddemocratiaeth, o dan arweiniad Rheolwr y Cyfryngau, Brandio ac e-ddemocratiaeth.**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn datblygu cynllun gweithredu o 12 mis yn seiliedig ar y strategaeth hon; mae'r costau wedi eu clustnodi o arian y flwyddyn o gyllideb 2010-11 a 2011-12.**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn darparu gweithgaredd ymwneud, ond gall ddefnyddio staff eraill neu (weithiau) adnoddau allanol lle bydd angen. Bydd y tîm yn cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Bwrdd Rheoli ar y cynnydd.**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn cynhyrchu'r polisïau a'r arweiniad i gefnogi'r strategaeth e-ddemocratiaeth, a bydd yn eu rheoli. Bydd y tîm hefyd yn nodi anghenion hyfforddiant ar gyfer staff i'w helpu i ymgymryd â'r gwaith o ymwneud digidol effeithiol.**

**Bwrdd Rheoli'r Cynulliad a Chomisiwn y Cynulliad yn y pen draw fydd yn gyfrifol am gymeradwyo polisïau ymwneud digidol corfforaethol. Hyn ddylai'r meysydd blaenoriaeth fod:**

- **hyrwyddo gweledigaeth, nodau ac amcanion strategaeth y Cynulliad ar gyfer e-ddemocratiaeth;**
- **sefydlu polisïau cymryd rhan ac arweiniad cysylltiedig ar gyfer ymwneud a'r staff;**
- **addysgu penaethiaid gwasanaeth a rheolwyr llinell i reoli staff sy'n cymryd rhan mewn ymwneud digidol;**
- **cefnogi mynediad priodol i'r we a hyrwyddo technoleg hwyluso; a**
- **hyrwyddo enghreifftiau o arfer da gan ddeddfwrfeydd a chyd-destunau eraill.**

**Er mai staff y Cynulliad fydd yn darparu ymwneud digidol, i fod yn llwyddiannus bydd angen cefnogaeth ac arweiniad gweladwy gan gyfarwyddwyr a phenaethiaid gwasanaeth y Cynulliad Cenedlaethol. Dylai Comisiynwyr ac uwch reolwyr annog staff drwy gyfranogi'n uniongyrchol eu hunain yng ngweithgaredd ymwneud digidol corfforaethol y Cynulliad Cenedlaethol.**

## 5. Risgiau

**Gall technoleg newydd fod yn agored i'w cham-drin a'i chamddefnyddio. Er enghraifft, mae'r ffaith fod hyd yn oed y safleoedd mwyaf sefydledig mor newydd yn golygu bod dysgu sut i'w defnyddio yn y ffordd orau yn dal i ddigwydd 'wrth fynd ymlaen', ac nid oes cynseiliau wedi eu gosod gan ddeddfwrfeydd neu gyrff llywodraethu eraill.**

**Rydym wedi ceisio lleihau risgiau (er na allwn eu dileu) drwy ddatblygu polisïau ar ddefnyddio technolegau a gwefannau newydd.**

**Fodd bynnag, y risg fwyaf yn y strategaeth hon yw peidio â gweithredu'r argymhellion sydd ynddi, ac yn anad dim achosi i genhedlaeth sy'n tyfu droi ei chefn ar y broses ddemocrataidd. Os na fydd y Cynulliad yn symud i ymwneud â'r ffigurau demograffeg hynny sy'n draddodiadol wedi cadw draw oddi wrth y Cynulliad a'i waith, ni fydd y pellter hwnnw ond yn parhau ac yn cynyddu.**

**Mae angen i'r Cynulliad symud yn gyflym i gysylltu â 'brodorion' digidol tra byddant yn ifanc, er mwyn i hyn ddod yn rhan o'u hymwybyddiaeth ddiwylliannol fel dinasyddion Cymru. Heb symud rhagor o gynnwys ar-lein – fel y gall unrhyw un sydd â chysylltiad rhyngrwyd gael gafael arno – bydd yn fwyfwy anodd i ateb cyhuddiadau fod y Cynulliad yn canolbwyntio ar Gaerdydd ac yn methu cynrychioli Cymru gyfan.**

**Yn ogystal, mae yna risg i enw da y Cynulliad, lle caiff ei weld fel rhywbeth amherthnasol i gymdeithas fodern oherwydd y syniad ei fod yn gwrthod mabwysiadu'r hyn sydd erbyn hyn wedi dod yn dechnegau cyfathrebu prif-ffrwd.**

## 6. Staffio a Chostau

### 6.1 Staffio

**Caiff gweithrediadau'r tîm e-ddemocratiaeth o ddydd i ddydd eu harwain gan Olygydd Gwefan y Cynulliad Cenedlaethol, gydag arweiniad strategol gan Reolwr y Cyfryngau, Brandio ac e-ddemocratiaeth. Bydd y tîm hwn yn parhau i arwain wrth nodi sianelau a thechnegau cyfathrebu digidol effeithiol a chost-effeithiol.**

**Fodd bynnag, wrth i egwyddorion y strategaeth hon gael eu cynnwys yn ffyrdd arferol y Cynulliad o weithio, bydd gan bob maes gwasanaeth rywfaint o gyfrifoldeb dros ei gweithredu. I'r diben hwnnw, dylid cael hyrwyddwyr e-ddemocratiaeth ar draws meysydd gwasanaeth, a dylai'r rheini sicrhau bod cyfleoedd ar gyfer ymwneud arloesol yn cael eu nodi ac yn dod i sylw Rheolwr y Cyfryngau, Brandio ac e-ddemocratiaeth.**

**Mae nifer o feysydd gwasanaeth eisoes yn gwneud hyn, ac mae'r strategaeth yn ceisio cydnabod yr arloeswyr hyn, gan annog meysydd gwasanaeth eraill hefyd i ymdrin â chyfathrebu mewn ffordd debyg.**

**Yn unol â pholisi'r Cynulliad ar yr iaith Gymraeg, bydd yr holl gyfathrebu, gan gynnwys cyfathrebu digidol ar-lein, yn hollol ddwyieithog. Fodd bynnag, ni ragwelir y bydd hyn yn ychwanegu'n sylweddol at unrhyw ofynion cyfieithu.**

### 6.2 Cost

**Mae'r strategaeth wedi cymryd i ystyriaeth y gostyngiad cyffredinol o 5 y cant yn y gyllideb am 2011-12 a'r gostyngiad cronnus arfaethedig o 20 i 25 y cant erbyn diwedd 2014-15.**

**Mae costau ymwneud digidol cyffredinol yn fach – mae'r rhan fwyaf o sianelau a gwasanaethau'n rhad ac am ddim i gofrestru gyda nhw, eu cyrchu a'u defnyddio. O ganlyniad, rhagwelir y gellir gweithredu'r strategaeth hon o fewn y cyfyngiadau cyllideb hyn.**

**Byddai unrhyw ddadansoddiad o fudd o ran cost yn dangos bod y perygl i enw da'r Cynulliad o beidio â manteisio ar y technegau cyfathrebu hyn yn fwy na'r arbedion cost bychan cysylltiedig o beidio ag ymgymryd â'r gwaith hwn.**

**Ar hyn o bryd, amcangyfrifir bod costau gweithredu cyllideb e-democratiaeth y Cynulliad tua £5k i £10k am y 12 mis cyntaf; mae'r arian hwn wedi ei glustnodi o'r gwariant o fewn y flwyddyn.**

## 7. Amserlen ar gyfer cyflawni

**Dyma fydd yr amserlen ar gyfer cyflawni strategaeth e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol:**

**Cychwyn – o fewn tri mis**

- **enwi tîm e-ddemocratiaeth penodedig sy'n cael ei yrru gan amcanion**
- **datblygu cynllun gweithredu 12 mis**
- **nodi sianelau ac offer priodol**
- **datblygu arweiniad a pholisïau ar gyfer eu defnyddio**
- **cychwyn rhaglen o ymwneud e-ddemocratiaeth rheolaidd**

**Atgyfnerthu – o fewn chwe mis**

- **ymgorffori egwyddorion a gweithgaredd e-ddemocratiaeth ym musnes arferol y Cynulliad**
- **cynyddu amlder a dyfnder gweithgaredd e-ddemocratiaeth**
- **sefydlu meincnodau ar gyfer gwerthuso defnydd ac ansawdd**

**Arloesedd – o fewn 2 mis**

- **dechrau 'trwyddedu' gweithgarwch e-ddemocratiaeth arfer da ar draws meysydd gwasanaeth y Cynulliad.**
- **rhannu syniadau ac arfer da gydag Aelodau'r Cynulliad**
- **rhannu syniadau a'r hyn a ddysgir gyda rhanddeiliaid allanol, fel sy'n briodol**
- **adolygu'r strategaeth ar e-ddemocratiaeth yng ngoleuni datblygiadau, ac ailddatblygu rhestr o amcanion ar gyfer y cyfnod nesaf**

## 8. Allbynnau

**Rhagwelir y bydd yr allbynnau dilynol yn deillio o'r strategaeth hon:**

- **strategaeth a chynllun gweithredu;**
- **tîm darparu craidd, a rhwydwaith ehangach o gynrychiolwyr adrannol;**
- **set o bolisïau a thargedau;**
- **rhaglenni hyfforddiant ac arweiniad;**
- **cyfrifon corfforaethol a phroffiliau ar wefannau cyfryngau cymdeithasol;**
- **cynnwys digidol i gael ei ddefnyddio ar safleoedd corfforaethol ac o gwmpas y we;**
- **adroddiadau monitro a gwerthuso; a**
- **defnyddiau astudiaethau achos.**

## 9. Gwerthuso a monitro

**Dylai ymwneud digidol effeithiol drwy gyfrwng e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol gael ei werthuso yn erbyn meincnodau penodol i fesur ei effeithiolrwydd.**

**9.1 Dangosyddion Perfformiad Allweddol**

**Gallai gweithredu strategaeth e-ddemocratiaeth y Cynulliad Cenedlaethol arwain at nifer o ganlyniadau cadarnhaol. Isod gwelir rhai dangosyddion perfformiad a awgrymir, o ran ansawdd a maint. Dylai rhestr ddiffiniol - ac arweiniad ar sut y gellir eu mesur – gael ei datblygu gan y tîm e-ddemocratiaeth a chael ei halinio â gweithgareddau penodol:**

- **gwell dealltwriaeth o swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol;**
- **eglurder ynglŷn â'r gwahaniaeth rhwng y Cynulliad Cenedlaethol a Llywodraeth Cymru;**
- **mwy o draffig i dudalennau allweddol ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol;**
- **cynyddu nifer yr ymatebion i ymgynghoriadau;**
- **mwy o dueddiad i gymryd rhan mewn ymholiadau;**
- **enw gwell i Aelodau'r Cynulliad;**
- **mwy o bobl yn mynd i bleidleisio; ac**
- **yn y blaen**

**9.2 Metricau ar-lein**

**Mae yna hefyd nifer o fetricau ar gael inni y gellir eu defnyddio i werthuso effeithiolrwydd y strategaeth e-ddemocratiaeth.**

**Gall y rhain, er enghraifft, fesur argraffiadau dalennau, ymwelwyr unigryw, faint o amser a dreulir ar bob dalen, nifer yr ymwelwyr sy'n dod yn ôl, lleoliad ein hymwelwyr, pa dudalennau sydd fwyaf poblogaidd, ac yn y blaen. Byddai angen i'r Cynulliad feincnodi'r ffigurau hyn i weld pa effaith mae'r ymdrechion cyfathrebu adnewyddol yn ei chael ar y data.**

**Bydd hefyd yn bosibl mesur nifer y rhyngweithrediadau y mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn eu cael drwy safleoedd rhyngweithio cymdeithasol, gan gynnwys nifer y bobl sydd wedi dewis dilyn amrywiol broffiliau rhwydweithio cymdeithasol y Cynulliad.**

**9.3 Ansawdd yn ogystal â nifer**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth hefyd yn datblygu metricau ansawdd i asesu gweithredu'r strategaeth e-ddemocratiaeth. Gallai'r rhain gynnwys nifer y sylwadau adborth cadarnhaol yn erbyn y rhai negyddol; gellid ystyried hefyd gael arolygon defnyddwyr ar wefan y Cynulliad – cyn datblygu'r safle newydd ac wedyn.**

**9.4 Monitro**

**Bydd y tîm e-ddemocratiaeth yn datblygu adroddiad gwerthuso i gynnwys yr holl weithgareddau yn ystod 12 mis cyntaf y strategaeth. Dylai hwn fod ar gael i'r cyhoedd, hwyrach fel rhan o adroddiad blynyddol y Cynulliad Cenedlaethol.**

## 10. Cydnabyddiaeth

**Er mwyn llunio strategaeth eang a chynhwysfawr, mae'r papur hwn wedi ei osod ynghyd ac ychwanegu ato gan gyfarfodydd a thrafodaeth gyda nifer o feddylwyr ac arloeswyr yn y cyfryngau cymdeithasol a thechnolegau ar-lein.**

**Ymhlith yn rheini mae'r canlynol: Swyddfa'r Cabinet, Grŵp Digidol Trawsbleidiol y Cynulliad Cenedlaethol, Ofcom, Llais Defnyddwyr Cymru, y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad, COI, Senedd y DU, Gwasanaeth Addysg y Senedd, Cymdeithas Hansard, Ysgol Diwydiannau Creadigol a Diwylliannol Caerdydd, Rhwydwaith Cyfathrebu'r Llywodraeth, Race Online 2012, Wisekids, Crocstar Media, NativeHQ a Marc Webber.**